

# YSGOL Y STRADE

**Polisi ar brosesau asesu a sicrhau ansawdd  
ar gyfer trefniadau amgen haf 2021**



AWJ

2.4.21



# Ysgol Y Strade

## Polisi ar brosesau asesu a sicrhau ansawdd ar gyfer trefniadau amgen haf 2021

Cyflwynir y polisi yma yn unol â'r hyn a amlinellir yn llyfryn gofynion a chanllawiau CBAC (Mawrth 2021).

<b>Enw'r Ganolfan:</b> Ysgol Y Strade	<b>Rhif y Ganolfan:</b> 68259
<b>Mabwysiadwyd y Polisi gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar (nodwch y dyddiad):</b>	<b>Dosbarthwyd y Polisi i staff ar (nodwch y dyddiad):</b>
<b>Aelod o staff â chyfrifoldeb am y Polisi:</b>	<b>Mr Alun Jones (Pennaeth Cynorthwyol)</b>

### Datganiad o fwriad

Diben y Polisi hwn yw gwneud y canlynol:

- sicrhau y cynhelir Graddau a Bennir gan Ganolfannau yn deg, yn gyson, heb ragfarn ac yn effeithiol o fewn ac ar draws adrannau a'u bod yn cael eu cynnal drwy gydol y broses
- fel bod y prosesau'n cael eu gweithredu'n effeithiol gyda chanllawiau clir a chefnogaeth i'r staff
- er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff sy'n ymwneud â'r prosesau'n deall ei rôl a'i gyfrifoldebau
- i gefnogi athrawon i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth yn unol â gofynion Cymwysterau Cymru
- i gyflawni safon uchel o sicrhau ansawdd mewnol wrth ddyrannu'r graddau a bennir gan ganolfannau
- i sicrhau bod y ganolfan yn bodloni ei rhwymedigaethau o ran deddfwriaeth cydraddoldeb ac anabledd
- i sicrhau ein bod yn bodloni'r holl ofynion a nodir yn yr Amodau Rheoleiddiol Arbennig, a chyfarwyddiadau'r Cyd-gyngor Cymwysterau a Sefydliadau Dyfarnu ar gyfer cymwysterau Haf 2021.

Dogfennau sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn:

- **Dogfennau JCQ**
  - Canllawiau Ystyriaethau arbennig
  - Canllawiau Trefniadau mynediad
  - Gwybodaeth i ymgeiswyr: asesiadau di-arholiad
  - Gwybodaeth i ymgeiswyr - Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac arholiadau / asesiadau
  - Gwybodaeth i Ymgeiswyr – Hysbysiad Preifatrwydd
  - Delio gydag achosion o gamymddwyn



- **Dogfennau CBAC**
  - Llinell amser i ganolfannau
  - Canllaw i bolisi canolfannau ar brosesau asesu a sicrhau ansawdd
  - Canllawiau Lefel Uchel am y Broses adolygiad canolfannau ac apeliadau CBAC – haf 2021
  - Canllawiau CBAC ar asesu a graddio ar gyfer trefniadau amgen haf 2021
  
- **Dogfennau Cymwysterau Cymru**
  - Canllawiau am drefniadau amgen ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch sydd wedi'u cymeradwyo (Mawrth 2021)
  
- **Polisiau Ysgol**
  - Polisi Gweithdrefnau Cwyno (wedi ei ddiweddarau er mwyn cynnwys cyfeiriad i'r polisi hwn)
  - Llinell Amser GBG
  - Polisi Rheoliadau Diogelu a Phrosesu Data

Cyfrifoldeb pawb sy'n ymwneud â chynhyrchu Graddau a Bennir gan Ganolfannau yw darllen, deall a gweithredu'r polisi.

## 1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Polisi yn amlinellu sut y bydd yr ysgol, fel canolfan arholi, yn defnyddio'r 'Canllawiau am drefniadau amgen ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch sydd wedi'u cymeradwyo' a ddarperir gan Gymwysterau Cymru, i helpu i benderfynu graddau yn 2021.
- 1.2 Mae'r Polisi yn berthnasol i gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch sy'n cael eu rheoleiddio yng Nghymru. Ar gyfer yr ychydig iawn o gymwysterau a reoleiddir gan Ofqual, bydd yr ysgol yn defnyddio'r canllawiau perthnasol i'r pynciau hynny.
- 1.3 Ym mis Tachwedd 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg na fyddai cyfres arholiadau haf ar gyfer myfyrwyr sy'n cymryd TGAU, lefelau UG na Safon Uwch yn 2021. Ar 20.1.21, cadarnhawyd y byddai'r cymwysterau hyn yn cael eu dyfarnu gan ddefnyddio Graddau a asesir gan y Ganolfan. Golygir hyn bydd canolfannau arholi unigol, fel yr ysgol hon, yn pennu'r graddau a ddyfarnwyd ar gyfer pob cymhwyster.
- 1.4 Trwy rannu ei dull, mae'r ysgol yn ceisio cynnig eglurder a hyder i fyfyrwyr, staff a theuluoedd. Ar ben hynny, mae'n darparu trosolwg o'r penderfyniadau y bydd athrawon yn eu gwneud, sut y bydd athrawon yn gwneud y penderfyniadau hyn, ac yn nodi'r dystiolaeth y bydd athrawon yn ei defnyddio i gefnogi'r broses benderfynu.

## 2. Rolau a Chyfrifoldebau

- 2.1 Mae rolau a chyfrifoldebau penodol staff o ran cymwysterau, i raddau helaeth, yn aros yr un peth â chyfresi arholiadau eraill. Fodd bynnag, ar gyfer dyfarniadau yn 2021, mae'r rolau a'r cyfrifoldebau canlynol yn berthnasol o ran pennu graddau:
  - 2.1.1 **Cadeirydd y Llywodraethwyr** – cymeradwyo'r polisi hwn ag unrhyw bolisi cysylltiedig;



- 2.1.2 **Pennaeth (GE)** – Gweithredu fel Pennaeth y ganolfan a sicrhau rolau a chyfrifoldebau clir er mwyn gweithredu'r polisi. Cadarnhau hygyrdded y broses o ddyfarnu graddau'r ganolfan ac arwyddo datganiad Pennaeth y ganolfan;
- 2.1.3 **Pennaeth Cynorthwyol (AWJ) – Cydlynnydd y broses asesu a sicrhau ansawdd Cymwysterau 2021.**  
Bydd AWJ yn:
- (i) darparu hyfforddiant/cefnogaeth i staff;
  - (ii) cyflwyno strwythur asesu ysgol gyfan er mwyn i adrannau fynd ati i benderfynu ar ddull asesu ar gyfer pob cymhwyster;
  - (iii) penderfynu ar y broses o sicrhau ansawdd mewnol y graddau a bennwyd gan y ganolfan;
  - (iv) darparu polisi clir ynglŷn â'r broses, gan gynnwys sut i gadw cofnodion a thystiolaeth yn ddiogel;
  - (v) sicrhau cysondeb ar draws holl adrannau'r ysgol wrth weithredu ar y polisi hwn;
  - (vi) rhannu gwybodaeth o ran data perfformiad yr ysgol / adrannau unigol dros gyfnod o 4 mlynedd;
  - (vii) cydlynnydd y broses o ymchwilio i unrhyw gais am adolygiad o raddau.
- 2.1.4 **ALENCo (NW)** – bydd NW yn gyfrifol am sicrhau bod y trefniadau mynediad cywir mewn lle ar gyfer unrhyw ddysgwyr sydd eu hangen. Bydd NW hefyd yn gyswllt adrannol yng nghyd-destun disgyblion ADY.
- 2.1.5 **Pennaeth Adran (PA)** – bydd pob PA yn:
- (i) penderfynu ar ddull asesu perthnasol ar gyfer pob cymhwyster;
  - (ii) hyfforddi ac arwain staff er mwyn sicrhau cysondeb ym mhenderfyniadau eu cymwysterau;
  - (iii) cytuno ar unrhyw addasiadau i'r dull asesu ar gyfer unrhyw ddysgwyr unigol (a'u cofnodi);
  - (iv) rheoli'r ffordd mae unrhyw dystiolaeth neu ddata yn cael eu storio o fewn yr adran;
  - (v) sicrhau bod yna Gofnodion Penderfyniadau Dysgwyr wedi eu paratoi, yn gyfredol a'n gywir ar gyfer pob dysgwr sydd wedi ei gofrestru am gymhwyster o fewn yr adran;
  - (vi) dadansoddi data perfformiad yr adran dros gyfnod o 4 mlynedd yn ogystal ag ystyried perfformiad / data tracio y cohort presennol (BI 11, 12 a 13), er mwyn adnabod unrhyw batrymau unigryw ar gyfer eleni, ac ymateb i hynny yn ôl yr angen;
  - (vii) sicrhau bod y trefniadau mynediad cywir mewn lle ar gyfer unrhyw ddysgwyr sydd eu hangen
  - (viii) gweithredu'r broses Sicrhau Ansawdd yn unol â pholisi'r ysgol;
  - (ix) ymateb yn amserol a'n llawn i unrhyw gais gan AWJ am wybodaeth yn gysylltiedig ag unrhyw adolygiad o radd yn ôl yr angen;
  - (x) sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol yn cael ei osod ar SIMS / wefan ddiogel CBAC yn unol â'r 'Llinell Amser' ysgol gyfan.
- 2.1.6 **Athrawon** – bydd pob athro dosbarth yn:



- (i) sicrhau y cwblheir asesiadau perthnasol o dan y rheolaethau a benodir o fewn y polisiau perthnasol ar gyfer eleni;
- (ii) sicrhau bod dull asesu'r adran yn cael ei weithredu ar gyfer y dysgwyr penodol, a bod yna ddigon o dystiolaeth yn unol â pholisi'r adran / ysgol er mwyn pennu gradd i bob dysgwr;
- (iii) penderfynu ar radd ar gyfer pob dysgwr sy'n adlewyrchiad teg, dilys a dibynadwy o'r dystiolaeth a aseswyd;
- (iv) cwblhau Cofnodion Penderfyniadau Dysgwyr i bob dysgwr;
- (v) sicrhau bod gwaith pob dysgwr wedi'i storio'n ddiogel yn unol â pholisi'r Adran / Ysgol;
- (vi) sicrhau bod y trefniadau mynediad cywir mewn lle ar gyfer unrhyw ddysgwr sydd eu hangen.
- (vii) sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol yn cael ei osod ar SIMS / wefan ddiogel CBAC yn unol â'r 'Llinell Amser' adrannol ac ysgol gyfan;
- (viii) ymateb yn amserol a'n llawn i unrhyw gais gan y PA am wybodaeth yn gysylltiedig ag unrhyw adolygiad o radd yn ôl yr angen.

2.1.7 **Swyddog Arholiadau (ET/SG) – bydd y Swyddog Arholiadau yn:**

- (i) rhannu gwybodaeth a ddaw o CBAC, OCR, PEARSON a Chymwysterau Cymru yn amserol gyda'r staff perthnasol;
- (ii) cofrestru disgyblion ar gyfer cymwysterau penodol;
- (iii) cysylltu â CBAC yn ôl yr angen a chyd-weithio gydag AWJ er mwyn hwyluso'r broses weinyddol o bennu graddau, sicrhau ansawdd, ceisiadau am adolygiad o radd, apeliadau ayb.

**3. Graddau a Bennir gan y Ganolfan**

- 3.1 Gradd a Bennir gan Ganolfan yw'r radd a ddyfernir gan yr ysgol, fel canolfan arholi, ar sail cyrhaeddiad a ddangoswyd ym meysydd cynnwys y cymhwyster y mae myfyriwr wedi gallu ei gwblhau yn ystod y cyfnod astudio.
- 3.2 Ar gyfer pob cymhwyster, bydd athrawon yn defnyddio Fframweithiau Asesu CBAC sy'n cynnwys disgrifyddion ar gyfer graddau allweddol i gefnogi dosbarthiad cywir y dyfarniadau. Rhaid i bob gradd a ddyfernir gan yr ysgol gael ei hategu gan dystiolaeth gadarn i ddangos cyrhaeddiad myfyriwr ar draws themâu a sgiliau allweddol. Bydd y rhain yn amrywio fesul cymhwyster. Rhaid cadw mewn cof yr hyn y mae CBAC wedi ei awgrymu o ran y dystiolaeth fyddai'n ddelfrydol a'r esiamplau mae CBAC wedi ei roi yng nghyd-destun llwybrau amrywiol er mwyn dangos dealltwriaeth o'r Amcanion Asesu.
- 3.3 Ni fydd Gradd a Bennir gan y Ganolfan yn seiliedig ar botensial myfyriwr. Bydd gofyn i athrawon gymhwyso eu barn broffesiynol a phenderfynu a yw'r wybodaeth a'r sgiliau a ddangosir yn cwrdd â'r safon arferol ar gyfer gradd benodol.
- 3.4 Wrth bennu graddau, bydd gofyn i athrawon lunio barnau 'ffit orau'. Mae hyn yn golygu nad yw'n ofynnol i fyfyrwyr ddangos pob agwedd ar ddisgrifydd gradd i gael y radd; dylid dyfarnu gradd i fyfyrwyr sy'n cefnogi tystiolaeth o gyrhaeddiad ar draws digon o gynnwys, o fewn y cymhwyster penodedig, fel y penderfynir gan



CBAC; a gallant gyflawni'r un graddau trwy arddangos gwahanol gyfuniadau o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth. Mae hyn yn sicrhau bod cryfderau mewn rhai meysydd yn gwrthbwysu diffygion mewn eraill.

- 3.5 Lle nad oes tystiolaeth ddigonol, neu lle mae tystiolaeth yn awgrymu bod cyrhaeddiad yn is na'r hyn sy'n ofynnol o'r radd isaf ar gyfer cymhwyster (h.y gradd G ar lefel TGAU; gradd E ar lefel UG / A) yna bydd myfyriwr yn cael Gradd U a Bennir gan y Ganolfan .
- 3.6 Er na fydd y safon a ddisgwylir ar gyfer unrhyw radd benodol yn cael ei gostwng yn 2021, mae'r defnydd o Raddau a Bennir gan y Ganolfan yn cydnabod y bydd maint y gwaith a gwblhawyd gan fyfyriwr yn llai nag mewn blynyddoedd blaenorol, oherwydd effaith barhaus yr argyfwng iechyd byd-eang. Felly, mae defnyddio Graddau a Bennir gan y Ganolfan yn ceisio sicrhau nad yw myfyrwyr dan anfantais annheg oherwydd y broses.
- 3.7 Bydd angen i bob athro gwblhau hyfforddiant CBAC ar osgoi tuedd a thuedd anfwriadol er mwyn cwrdd â "Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus". Wedi iddynt wneud, bydd angen iddynt wirio'r cynlluniau asesu er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio, gan wneud unrhyw addasiadau priodol yn ôl yr angen.

#### **4. Sut y bydd Graddau a Bennir gan y Ganolfan yn cael eu penderfynu**

- 4.1 Ar gyfer pob cymhwyster, mae CBAC wedi darparu Fframwaith Asesu Cymwysterau i staff pwnc, a fydd yn nodi'r gofynion i gefnogi'r dystiolaeth i lywio Gradd a Bennir gan y Ganolfan.
- 4.2 Cynhyrchir Gradd a Bennir gan y Ganolfan gan ddefnyddio tystiolaeth o waith a gwblhawyd gan fyfyriwr, yn unol â'r fanyleb a addaswyd gan CBAC.
- 4.3 Wrth bennu gradd, bydd y Ganolfan yn dilyn y canllawiau isod:
  - 4.3.1 Mae'r fethodoleg asesu ar gyfer Haf 2021 wedi ei seilio ar **asesiadau craidd** ac **asesiadau ategol**. Mae'r term 'asesiadau craidd' yn cyfeirio tuag at 4.3.1.1 a 4.3.1.2 isod. Mae'r term 'asesiadau ategol' yn cyfeirio tuag at 4.3.1.3 isod. Gyda'i gilydd bydd yr asesiadau craidd ac ategol yn darparu sylfaen teg a chyson i athrawon gyflwyno tystiolaeth o safonau cyrhaeddiad dysgwyr gan hefyd rhoi'r hyblygrwydd i sicrhau ecwiti i'r holl ddysgwyr. Bydd y fethodoleg hyn ar waith ar gyfer cymwysterau TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch CBAC ar gyfer Haf 2021.

#### **Asesiadau Craidd**

##### **4.3.1.1 Cyn-bapurau arholiadau wedi'u haddasu gan CBAC**

Bydd CBAC yn darparu cyn-bapurau i ganolfannau eu defnyddio. Mae yna fuddion sylweddol i ddefnyddio'r papurau yma gan eu bod yn asesiadau teg, hygyrch, gyda'u hansawdd wedi'i sicrhau gyda chynlluniau marcio sydd wedi'u profi. Bydd y papurau yma yn cael eu defnyddio o fewn gwersi fel rhan annatod o'r dysgu ac addysgu yn ystod y cyfnod rhwng 15.3.21 a 11.6.21.



#### 4.3.1.2 Asesiadau nad ydynt yn arholiadau (ADR / NEA)

Mae'r math yma o asesiad yn bodoli yn y rhan fwyaf o gymwysterau. Gall athro ddefnyddio perfformiad y dysgwr yn yr elfen yma fel rhan o'r dystiolaeth ar gyfer pennu gradd derfynol. Bydd dull asesu'r adran yn cyfeirio at bwysoliad yr elfen yma wrth gymharu ag elfennau eraill o dystiolaeth.

#### Asesiadau Ategol

##### 4.3.1.3 Tystiolaeth ategol

(i) Os bydd angen mwy o dystiolaeth er mwyn arddangos cyrhaeddiad amlwg mewn meysydd penodol o'r cymhwyster, gall athrawon ddefnyddio tystiolaeth o gwestiynau cyn-bapur CBAC a gwblhawyd yn flaenorol (h.y cyn 15.3.21). Bydd gan y papurau yma sicrwydd ansawdd allanol a chynllun marcio cyhoeddedig. Er mwyn eu defnyddio fel rhan o dystiolaeth terfynol, rhaid bod y cyn-bapurau yma wedi eu cwblhau o dan amodau cyson, rheoledig (e.e. darpariaeth ar gyfer trefniadau mynediad, cysondeb ar draws y dosbarth/adran);

(ii) Defnyddir yr ystyriaethau isod (a-g) **yn unig** er mwyn **cefnogi'r** dyfarniad o radd (e.e. tra'n ystyried unrhyw ddysgwyr sydd ar ffin rhwng dwy radd):

- a) asesiadau a gynhaliwyd cyn cyhoeddi dull y ganolfan (ee. Ffug Arholiadau, asesiadau dosbarth/aseiniadau 'o bell')
- b) gwybodaeth tracio a monitro (SIMS / llyfr marcio staff);
- c) barn broffesiynol am berfformiad blaenorol y dysgwr;
- d) gwybodaeth am dargedau'r dysgwyr (adroddiadau);
- e) gwybodaeth am haenau papur arholiadau sy'n cael eu sefyll;
- f) canlyniadau unedau blaenorol;
- g) perfformiadau ymarferol.

4.3.2 Os bydd adrannau yn dyfeisio tasgau er mwyn darparu tystiolaeth ar gyfer dyfarnu graddau, rhaid iddynt ddilyn Canllawiau Creu Asesiadau CBAC er mwyn sicrhau bod y tasgau asesu yn:

- (i) bodloni'r egwyddorion allweddol asesu (sef, tegwch hygyrchedd, dilysrwydd, dibynadwyedd);
- (ii) yn cael eu datblygu yn unol â Fframweithiau Asesu Cymwysterau CBAC; a
- (iii) yn cael eu datblygu gan gyfeirio at y disgrifyddion graddau ar gyfer y cymhwyster a ddarperir a/neu feini prawf asesu/cynlluniau marcio manylebau cyfredol.

Bydd unrhyw adrannau sy'n dyfeisio asesiadau yn mynychu hyfforddiant 'ar lein' CBAC.

4.3.3 Bydd nifer y darnau o dystiolaeth sy'n ofynnol i bennu gradd yn amrywio fesul cymhwyster. Bydd athrawon yn sicrhau bod digon o gyfle i fyfyrwyr ddarparu tystiolaeth glir i ddangos cymhwysedd yn erbyn y themâu a'r sgiliau allweddol, fel y nodir ym mhob Fframwaith Asesu Cymwysterau



CBAC. Efallai mai cymharol ychydig o ddarnau o dystiolaeth glir a fyddai'n angen i ddangos cyrhaeddiad ar draws themâu allweddol ar gyfer llawer o gymwysterau. Bydd athrawon yn sicrhau nad yw cynhyrchu dystiolaeth yn creu dyblygu gwaith yn ddiangen nac yn gorlwytho cydweithwyr na disgyblion.

- 4.3.4 Ni fydd unrhyw asesiadau craidd yn cael eu cwblhau ar ffurf arholiad. Fodd bynnag, bydd myfyrwyr yn cynhyrchu gwaith o fewn cyfnod o amser penodol, i ymateb i'r amcanion asesu ym mhob pwnc. Yn wahanol i 'arholiad' arferol, bydd dystiolaeth yn cael ei chynhyrchu dros gyfres o wersi.
- 4.3.5 Bydd athrawon yn sicrhau blaen rybydd cyfartal i bob dysgwr o ddyddiad a thestun yr asesiad er mwyn sicrhau tegwch ar draws dosbarthiadau.
- 4.3.6 Bydd yr asesiadau yn rhai "llyfr caeedig" ag eithrio mewn sefyllfaoedd lle byddai hyn y ffordd arferol o weithio ar gyfer asesu uned benodol. Fodd bynnag, bydd dysgwyr yn ymwybodol o destun yr asesiad o flaen llaw.
- 4.3.7 Mae gan yr Ysgol bolisiau penodol ar gwblhau asesiadau di-arholiad, asesiadau dan reolaeth a gweithdrefnau gwaith cwrs. Er hynny, rhaid cofio bod y cyfnod clo yn gofyn am ychydig o hyblygrwydd yn y trefniadau hyn. Yr egwyddor yw y dylai bob athro fod yn hyderus bod y gwaith a gyflwynwyd yn adlewyrchiad o waith gwirioneddol y disgybl ac nid gwaith a gyflawnwyd gan eraill. Mewn achos o gonsyrn dylid cyfeirio'r mater at AWJ/ET ar gyfer ymchwiliad pellach. Bydd unrhyw ymchwiliad yn dilyn canllawiau **JCQ 'Suspected Malpractice-Policies and Procedures 1 September 2020 to 31 August 2021'**
- 4.3.8 Bydd yn ofynnol i bob adran nodi sut y cafodd yr asesiadau eu cyflawni (h.y. wyneb i wyneb / o bell; lefel yr oruchwyliaeth; hyd y dasg);
- 4.3.9 Ni fydd dysgwyr yn derbyn unrhyw adborth ffurfiannol yn ystod, neu'n dilyn, unrhyw Asesiadau Craidd. Ni fydd unrhyw adborth ffurfiannol felly yn dylanwadu ar y penderfyniadau terfynol o ar gyfer GBG.
- 4.3.10 Os bydd dysgwr yn colli asesiad craidd o ganlyniad i absenoldeb (salwch neu hunanynysu), bydd yr athro/PA yn ystyried yr opsiynau canlynol:
  - i. sicrhau bod y dysgwr yn derbyn cyfle i gwblhau'r asesiad ar ôl dychwelyd i'r ysgol. Rhaid ystyried a yw'n bosib creu amodau er mwyn gallu cyflawni hyn o dan oruchwyliaeth aelod o staff. Rhaid hefyd ystyried os bydd yr opsiwn yma o anfantais i'r dysgwr oherwydd prinder amser / gorlwytho;
  - ii. cynnal yr asesiad(au) 'o bell'. Lle yn bosib bydd yr asesiad yma yn cael ei oruchwyllo gan aelod o staff ar lein. Rhaid i ddysgwyr lofnodi datganiad yn datgan nad ydynt wedi derbyn unrhyw gymorth yn ystod yr asesiad. Ar ôl derbyn y gwaith, rhaid i'r athro gymharu hyn â gwaith arall a gwblhawyd gan y dysgwr a sicrhau nad yw'r ansawdd yn amrywio'n sylweddol. Os bydd pryder, dylai'r athro drafod gyda'r PA. Efallai y bydd angen cynnal sesiwn holi ac ateb gyda'r dysgwr ynglŷn â'r asesiad. Bydd angen nodi hyn ar Cofnod Penderfyniad y





Dysgwr. Yn yr achos yma, bydd rhaid i'r PA ystyried pwysoliad yr asesiad yma yng nghyd-destun dull asesu unigol y dysgwr.

- iii. ni fydd yr asesiad yn cyfri fel darn o dystiolaeth. Yn yr achos yma, bydd rhaid i'r PA ystyried pwysoliad yr asesiadau eraill yng nghyd-destun dull asesu unigol y dysgwr.

Rhaid ystyried lles y dysgwr, yn ogystal â thegwch, hygyrchedd, dilysrwydd a dibynadwyedd wrth ddod at benderfyniad.

Bydd hyfforddiant pellach ynghylch yr uchod yn cael ei darparu gan yr ysgol.

- 4.3.11 Mae gan yr ysgol bolisi atal camymddwyn gan ymgeiswyr a staff y ganolfan. Hysbysir staff, disgyblion a'u rhieni o gynnwys y polisi hwn cyn bo'r asesiadau yn cymryd lle.

- 4.4 Bydd pob PA yn datblygu cynlluniau/dull asesu unigol ar gyfer y cymwysterau y maent yn gyfrifol amdanynt, a fydd yn cael eu cyflwyno i AWJ erbyn dydd Llun 22.3.21 (drafft 1). Bydd y cynlluniau hyn yn nodi:

- 4.4.1 Pa ddarnau penodol o dystiolaeth a ddefnyddir yn unol â phwynt 4.3.1 er mwyn pennu graddau;

- 4.4.2 Pwysoliad yr agweddau gwahanol o dystiolaeth o fewn y cymhwyster

- 4.4.3 Rhesymeg dros ddewis y dull asesu penodol, sy'n cynnwys cadarnhad bod yr amcanion asesu angenrheidiol y cymhwyster yn cael eu profi, a'u cynnwys mewn ffordd addas o fewn y dystiolaeth;

- 4.4.4 Amseriad unrhyw asesu bydd yn digwydd rhwng 15.3.21 a 11.6.21 (gan gynnwys hyd yr asesiad)

- 4.4.5 Dyddiad disgwylidig ar gyfer cymedroli unrhyw asesiad;

- 4.4.6 Manylion prosesau sicrhau ansawdd adrannol;

- 4.4.7 Crynodeb o ddata perfformiad yr adran dros gyfnod (2017-19)

- 4.5 Bydd AWJ yn cadeirio cyfarfod Tîm Arwain (TA) er mwyn adolygu a chymeradwyo'r dulliau asesu ac yn [cofnodi eu penderfyniadau]. Lle bydd angen i bwnc adolygu unrhyw agwedd o'u dull bydd cyfle i hynny ddigwydd ac ail gyflwyno i'r TA am gymeradwyaeth.

- 4.5. Bydd y TA a'r PA yn trafod unrhyw addasiadau angenrheidiol yn ystod y cyfnod gweithredu o ganlyniad i unrhyw newid annisgwyl i'r amgylchiadau oherwydd y pandemig.

- 4.6. Yn unol â'u cyfrifoldebau, bydd yr aelodau perthnasol o'r TA a'r PA yn sicrhau ansawdd a gweithrediad cyson y cynlluniau fel y disgrifir yn y polisi hwn.

## 5 Prosesau Sicrhau Ansawdd (SA)

- 5.1 Bydd yr ysgol yn ymgymryd â phrosesau sicrhau ansawdd, o fewn pynciau ac ar draws pynciau, i sicrhau bod y graddau a bennir yn ddilys, yn ddibynadwy ac yn deg, wrth geisio osgoi gwahaniaethu. Bydd yr ysgol yn sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu i'r holl staff i gefnogi hyn (darperir yr hyfforddiant hwn gan CBAC a Chymwysterau Cymru.)

- 5.2 Mae prosesau cymedroli mewnol wedi'u cynllunio i sicrhau safonau da a cheisio sicrhau tegwch i bob myfyriwr. Dyma'r drefn ar gyfer eleni:



- 5.2.1 Bydd pob PA yn cynnal hyfforddiant adrannol ynglŷn â'r asesu perthnasol ar gyfer y dull asesu (e.e. rhannu cynllun marcio, enghreifftiau o waith wedi'u hasesu);
  - 5.2.2 Bydd pob dull asesu / llinell amser asesu yn cyfeirio tuag at gyfnod o gymedroli marciau ar gyfer tasgau unigol, yn ogystal â chyfnod o gytuno ar raddau o fewn yr adran;
  - 5.2.3 Bydd yr athro dosbarth yn asesu unrhyw dasgau o'r newydd gan anodi'r gwaith yn unol â chynllun marcio CBAC (mewn beiro lliw coch)
  - 5.2.4 Ar gyfer unrhyw dasgau a gwblhawyd cyn 15.3.21, sy'n cyfri fel rhan o ddyfarniad unrhyw radd, rhaid i'r athro anodi'r gwaith hynny er mwyn cyfeirio at yr agweddau perthnasol o'r fanyleb (yr amcanion asesu) ayb;
  - 5.2.5 Bydd y PA yn sicrhau bod sampl yn cael ei chymedroli sy'n cwmpasu'r sbectrwm llawn o raddau a'r holl athrawon sydd wedi asesu gwaith ac sy'n cynnwys ystod eang o ymgeiswyr o bob gallu a rheini gydag anabled neu Anghenion dysgu Arbennig (*bydd yna bolisi ysgol gyfan yn clustnodi maint y sampl ar gyfer pob cohort*)
  - 5.2.6 Bydd y broses o gymedroli yn cynnwys nifer o aelodau'r adran. Yn ystod y broses yma bydd yr athro sy'n cymedroli unrhyw waith yn ychwanegu sylwadau mewn beiro lliw gwyrdd;
  - 5.2.7 Bydd y Pennaeth Adran yn adolygu unrhyw anghysondebau (ac yn ychwanegu sylwadau mewn beiro lliw glas). Bydd y PA yn sicrhau bod yna adborth i bob aelod o'r adran ynghylch eu marcio yn ystod y cyfnod asesu;
  - 5.2.8 Mewn sefyllfa lle bydd angen addasu marciau unrhyw athro yn sylweddol, bydd y PA yn gofyn am sampl ychwanegol oddi wrth yr athro yna er mwyn sicrhau ansawdd ymhellach;
  - 5.2.9 Cedwir tystiolaeth o'r prosesau hyn fel rhan o dystiolaeth o'r adran ar gyfer sicrhau ansawdd.
- 5.3 Mewn adrannau lle mae athrawon yn gweithio ar eu pennau eu hunain, bydd yr ysgol yn rhoi cyfle i dystiolaeth gael ei chymedroli, trwy ganolfan arall: Ysgol Maes y Gwendraeth, Ysgol Dyffryn Aman, ac/neu Ysgol Bro Myrddin.
- 5.4 Bydd angen datgan unrhyw staff sydd â gwrthdaro buddiannau (e.e athro sy'n rhiant i ddysgwyr), a sicrhau nad yw'r broses yn cael ei chyfaddawdu (e.e sicrhau na fydd yr athro hynny yn ymwneud â'r asesu neu ddilysu gwaith).
- 5.5 Bydd yr ysgol yn sicrhau bod gwaith yr holl staff sy'n asesu tystiolaeth yn cael ei gymedroli, fel rhan o sicrhau ansawdd mewnol. Pan fydd maint carfan arholiad yn is na 10 yna bydd y garfan gyfan yn cael ei chymedroli. Ar gyfer samplau mwy, bydd yr ysgol yn sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei hystyried o ystod o broffiliau myfyrwyr, o fyfyrwyr mwy galluog i'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol; a'r myfyrwyr hynny sydd â nodweddion gwarchodedig.
- 5.6 Bydd yr ysgol yn cynnal hyfforddiant mewnol ynghylch prosesau SA gan ddefnyddio profiad ac arbenigedd arweinwyr yn yr ysgol sy'n Brif Arholwyr a Phrif Safonwyr CBAC yn eu cymwysterau perthnasol.
- 5.7 Bydd adolygiad o ddata adrannol yn sicrhau cysondeb o un flwyddyn i'r llall. Ble mae anghysondeb amlwg yn dod i'r wyneb fe fydd CBAC yn cynnal ymchwiliad a all olygu



cyflwyno tystiolaeth bellach gan yr adran neu'r ganolfan. Fe fydd gan y Tîm Arwain gorolwg o ganlyniadau pob disgybl a bydd rhan o'r broses o sicrhau ansawdd yn ymwneud a thrafod tueddiadau adrannol a thueddiadau unigol gyda'r PA yn ôl yr angen. Bydd pob PA yn ystyried sefyllfa data'r adran dros gyfnod o amser (2017-20) yn ogystal â gwybodaeth tracio a monitro'r cohort presennol (SMID)

5.8 Bydd y Tîm Arwain/AWJ yn sicrhau ansawdd y graddau terfynol drwy ddadansoddi ac asesu:

- 5.8.1 Dangosyddion ysgol gyfan gyda ffocws ar dueddiadau hanesyddol a data perfformiad hanesyddol y cohort (SMID).
- 5.8.2 Perfformiad pynciau unigol, gan gymharu tueddiadau hanesyddol
- 5.8.3 Perfformiad disgyblion unigol ar draws yr amrediad o bynciau maent yn astudio (*SMID – residuals*).
- 5.8.4 Cofnodion Asesu pynciol gan gynnwys cofnodion gwneud penderfyniadau.

## 6 Cofnodi Penderfyniadau

6.1 Bydd yr ysgol yn cadw cofnod i ddogfennu'n glir y rhesymeg dros benderfyniadau gradd ar Gofnod Penderfyniad Dysgwr

6.2 Bydd cofnodion penderfyniad yn manylu ar bwy asesodd y dystiolaeth a phryd; y penderfyniad a gymerwyd; unrhyw addasiadau rhesymol neu ystyriaethau arbennig a gymhwysir; ac unrhyw addasiadau i benderfyniad yn ystod y broses.

6.3 Bydd yr ysgol y cadw cofnod o unrhyw geisiadau ar gyfer adolygiadau o raddau yn ogystal â'r penderfyniadau.

## 7 Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Diogelu Data

7.1 Wrth ddatblygu dull o ymdrin â graddau a bennir gan ganolfannau yn 2021, mae'r ysgol wedi cymryd camau i sicrhau ei bod yn cyflawni ei Dyletswydd Cydraddoldeb yn y Sector Cyhoeddus. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol ac mae'n rhan o Ddeddf Cydraddoldeb (2010), sy'n sicrhau sylw dyledus i'r angen i wneud hynny

- 7.1.1 Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall a waherddir gan Ddeddf Cydraddoldeb (2010);
- 7.1.2 Hyrwyddo cydraddoldeb a chyfle rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai nad ydynt; a
- 7.1.3 Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a'r rhai nad ydyn nhw.

7.2 Bydd yr ysgol yn sicrhau ei bod yn cwrdd â rheoliadau diogelu a phrosesu data.

## 8. Adolygiad o Brosesau Graddau ac Apeliadau Penderfynol y Ganolfan

8.1 ***Ar adeg ysgrifennu, nid oedd y broses o adolygu graddau canolfannau a'r prosesau apelio wedi'i chwblhau.***



- 8.2 Bydd Graddau a ddyfernir gan y Ganolfan Dros Dro yn cael eu rhannu gyda dysgwyr ym mis Mehefin, cyn iddynt gael eu hanfon at CBAC. Bydd dysgwr yn gallu apelio y radd a ddyfernir. Bydd tri cham i'r broses apelio:
- 8.2.1 Cam 1 (18.6.21-25.6.21): adolygiad canolfannau. Bydd yr ysgol yn rhannu Graddau a Bennir gan Ganolfannau rhagarweiniol â'u dysgwyr yn ogystal â'r wybodaeth a gofnodwyd ar eu Cofnod Gwneud Penderfyniadau Dysgwr. Bydd cyfle i ddysgwr ofyn i'r ganolfan i adolygu ei raddau rhagarweiniol a chadarnhau nad oes unrhyw wallau cyn cyflwyno'r graddau i CBAC (bydd yna ganllawiau pellach ynghylch prosesau gweithredu Cam 1 yn cael eu rhyddhau i ddysgwyr yn ystod tymor yr Haf);
- 8.2.2 Bydd Cam 2 yn cynnwys apêl i CBAC ar y sail bod y dyfarniad y mae'r ganolfan wedi'i wneud yn afresymol a / neu fod gwall gweithdrefnol wedi'i wneud; a
- 8.2.3 Mae Cam 3 yn cynnwys cais i Gymhwyster Cymru am Wasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiad (EPRS) i adolygu a yw CBAC wedi dilyn y gweithdrefnau gofynnol.
- 8.3 Bydd CBAC yn rhannu rhagor o wybodaeth am ganllawiau adolygu mewnol ac apelïadau ddechrau mis Ebrill. Bydd yr ysgol wedi ymrwymo i ddarllen ac ystyried y canllawiau cyn adolygu a diweddarau gweithdrefnau cwynion ac apelïadau mewnol yr ysgol.
- 8.4 Bydd y ganolfan yn sicrhau bod rhieni / gwarcheidwaid â mynediad i bolisi cwynion / apelïadau y ganolfan.
- 8.5 Cyfeirir apelïadau mewnol yn y lle cyntaf at y Swyddog Arholiadau.

## 9. Dysgu Proffesiynol

- 9.1 Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a CBAC, bydd yr ysgol yn sicrhau bod hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu i staff ar bob lefel er mwyn sicrhau bod y cynllun asesu, a'r prosesau cysylltiedig, yn cael eu gweithredu'n llawn.
- 9.2 Bydd pob aelod o staff sy'n rhan o broses graddau a ddyfernir gan ganolfan yn cyflawni Rhaglen Dysgu Broffesiynol asesu ategol ar gyfer Haf 2021 yn llawn.
- 9.3 Yn ogystal â darparu hyfforddiant ar y cynllun asesu a chymau gweithredu cysylltiedig i staff ar bob lefel, bydd yr ysgol yn adolygu ei rhaglen hyfforddi bresennol i helpu i reoli llwyth gwaith staff. Bydd hyfforddiant penodol ar osgoi rhagfarn anymwybodol wrth asesu gwaith yn cael ei ddarparu i'r holl staff sy'n ymwneud â marcio tystiolaeth (trwy CBAC).
- 9.4 Bydd staff a nodwyd hefyd yn mynychu hyfforddiant penodol ar faterion cydraddoldeb, gan gynnwys dyletswyddau'r sector cyhoeddus; rheoli tuedd ymwybodol ac anymwybodol; prosesu data a diogelu data, gan gyfeirio'n benodol at hysbysiadau prosesu teg.



## **10 Ymgeiswyr Preifat**

- 10.1 Mae'r ysgol wedi cytuno i fod yn ganolfan asesu ar gyfer rhai ymgeiswyr preifat eleni
- 10.2 Bydd yr ysgol yn gweithredu yn unol â chyfarwyddiadau CBAC / Cymwysterau Cymru ynglŷn â'r broses o bennu graddau ar gyfer y dysgwyr yma.

## **11 Cymhwyso Ystyriaeth Arbennig (YA)**

- 11.1 Bydd yr ysgol yn mabwysiadu strwythur YA cyhoeddedig CBAC o fewn y polisi ysgol gyfan.
- 11.2 Nodir y polisi bod AWJ a/neu'r Swyddog Arholiadau yn gyfrifol am ystyried cais am YA. Yn unol â'r polisi, bydd unrhyw YA yn cael ei nodi (gan gynnwys y canran penodol) ar SIMS, er mwyn i bob PA / athro gallu ei weld. Bydd y wybodaeth yma hefyd yn ymddangos ar Gofnod Penderfyniad Dysgwr.
- 11.3 Mewn achos o YA, bydd yr athro penodol yn sicrhau bod y canran addas o ystyriaeth yn cael ei ychwanegu i farc terfynol y dysgwr cyn pennu gradd. Bydd y PA perthnasol yn gorychwilio'r broses yma ac yn cadarnhau'r marc/gradd.
- 11.4 Fel sy'n safonol, efallai y bydd angen tystiolaeth ar yr ysgol i ddangos bod y myfyriwr yn cwrdd â'r meini prawf.

## **12 Rhannu gwybodaeth gyda dysgwyr a'u rhieni**

- 12.1 Bydd yr holl wybodaeth ynghylch asesiadau gan gynnwys y polisi yma yn cael eu rhannu yn amserol gyda dysgwyr a rhieni ar wefan yr ysgol neu yn ddigidol trwy neges 'groupcall';
- 12.2 Bydd yna ddiweddariad i 'polisi cwynion' y Ganolfan yn ymddangos ar wefan yr ysgol erbyn 26.4.21;
- 12.3 Erbyn dydd Gwener 26.3.21 bydd copi drafft o'r polisi hwn ar gael ar wefan yr ysgol;
- 12.4 Erbyn dydd Gwener 26.3.21 bydd AWJ yn rhyddhau i ddysgwyr a rhieni eu 'Llwybr Dysgu' ar gyfer y cyfnod 13.4.21 – 30.4.21, yn y lle cyntaf. Bydd y 'Llwybr Dysgu' yn dangos unrhyw asesiadau sy'n berthnasol fesul wythnos.
- 12.5 Bydd yna 'Llwybr Dysgu' ychwanegol yn cael ei rhyddhau erbyn 26.4.21 ar gyfer y cyfnod 4.5.21 - 7.7.21.
- 12.6 Cyfrifoldeb pob athro unigol fydd i rannu manylion penodol gyda'r dysgwyr ar gyfer yr asesiad craidd. Bydd yr wybodaeth yma yn cael eu rhannu yn ystod gwersi a thrwy 'Team' perthnasol y dosbarth ar Microsoft Teams.
- 12.7 Bydd yr wybodaeth o ran y Llwybrau Dysgu ac unrhyw wybodaeth i ddysgwyr hefyd yn cael eu gosod ar 'Team' perthnasol y flwyddyn ar Microsoft Teams fel bod mynediad gyda phob dysgwr.
- 12.8 Erbyn dydd Gwener 26.3.21 bydd AWJ yn rhyddhau i ddysgwyr a rhieni esboniad cryno o'r polisi (gan gynnwys: prosesau asesu, prosesau sicrhau ansawdd, yr hawl i ofyn am adolygiad / apelio, a'r Llwybr Dysgu);
- 12.9 Cyn 28.5.21 bydd AWJ yn rhyddhau i ddysgwyr a rhieni diweddariad o ran y prosesau ar gyfer penderfynu ar raddau a sicrhau ansawdd;



12.10 Bydd yna ddiweddariad i rieni a dysgwyr hefyd o ran y broses apeliadau / adolygiadau unwaith i'r wybodaeth yma gael ei rhyddhau gan CBAC / Cymwysterau Cymru.